Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 10fed o Orffennaf, 2018 am 7:30 y.h.**

**Yn Bresennol -** Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming(SP), Sara Williams (SW) John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), Ynyr Ellis (YE) a'r Cyng. Aled Roberts (AR).

**1.** **Hysbysiadau y Cadeirydd -** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a rhoddwyd croeso arbennig i Ynyr Ellis i'w gyfarfod cyntaf.

**2.** **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts.

**3.** **Datgan Diddordeb –** Neb

**4.** **Diweddariadau asedau –** *Adroddodd LJ ei bod am dwtio'r Cysgodfan ym maes parcio'r Ganolfan*.

**5.** **Cofnodion**

***5.1*** ***Cyflwyno a mabwysiadu -*** Cynigodd JO fod cofnodion y 12fed Mehefin, 2018 yn gywir. Eiliodd SW ac fe'u mabwysiadwyd.

***5.2*** ***Materion yn codi***

***5.2.1*** ***Nant Gwrtheyrn –*** Adroddodd y Clerc ei fod yn y broses o drefnu cyfarfod o'r rhandalwyr i drafod beth ellir ei wneud ynglyn a'r wal fregus ar y ffordd i'r Nant. *Y Clerc i weithredu.*

***5.2.2*** **Mynwent Pistyll –** Adroddodd LJ fod y Parch Richard Wood wedi anfon am ganiatâd i godi'r wal a bod y mater mewn llaw. *LJ i gysylltu â'r Parch Richard Wood i holi ymhellach am y cynnydd.*
Nododd hefyd fod cofnod o'r claddedigaethau ym Mynwent Pistyll hyd at 2013 yn yr archif yng Nghaernarfon. Mae'r cofnod ar ôl hynny o dan ofal y Parch Richard Wood.

***5.2.3*** **Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn –** Cyflwynodd y Clerc gasgliad ei ymchwil. Daethpwyd i'r casgliad fod rhai ffrydiau o'r gwaith angen eu hymchwilio ymhellach. (e.e. Tir Comin Garreg Lefain a'r Hafod) Cynigiodd JO fod SP a GW yn cydlynu parhäd yr ymchwil hyd y bydd y Clerc newydd yn cymryd trosodd. Eiliodd LJ a chytunodd pawb. *SP a GW i weithredu.* Mae'r ddogfennaeth (sy'n cynnwys crynodeb o gasgliadau'r Clerc) bellach dan ofal SP.

***5.2.4*** **Cerrig Milltir Plwyf Pistyll –** *Y Clerc i fynd i'r Archifdy yng Nghaernarfon i ymchwilio.*

***5.2.5*** **Biniau Halen -** Nododd y Clerc ei fod wedi gofyn am ddiweddariad am ei ymholiad gwreiddiol ynglyn ac amodau biniau newydd gan y Cyngor Sir. *Y Clerc i ddilyn i fyny eto pe na cheir ymateb cyn y cyfarfod nesaf.*

***5.2.6*** **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Nododd y Clerc ei fod wedi cychwyn ar y broses o wahodd cynrychiolydd o Uned draffig y Cyngor Sir a'r cynrychiolydd perthnasol o'r Heddlu i gyd-fynychu cyfarfod buan o'r Cyngor.

***5.2.7*** **Dŵr ar lôn Rhosydd -** Nododd y Clerc iddo siarad â'r Swyddog perthnasol o'r Cyngor Sir sydd wed cadarnhau fod y gwaith papur i ysgogi gwedd nesaf y gwaith lliniaru wedi'i gyflwyno. Mae'r Clerc bellach wedi gyrru neges ebost i Adran Briffyrdd Dwyfor yn holi pryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau. Ni does ymateb i law eto. *Y Clerc i ddilyn i fyny eto os oes angen.*

***5.2.8*** **Memorandwm Dealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant -** Adroddodd y Cerc fod yna nodyn gyda gwaith papur mynwent Carnguwch yn cadarnhau fod y Cynghorydd Gwyn D. Roberts wedi dweud fod '..mynwent Eglwys Carnguwch ar weithredoedd yr Eglwys sydd yn enw Cyfeillion Eglwys Carnguwch'. Bu mewn cyswllt â Mr Roberts i dynnu sylw'r Cyfeillion at eu hawliau o dan y Memorandwm Dealltwriaeth.

***6.*** **Canolfan Llithfaen –**Nododd y Clerc fod Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir wedi cadarnhau nad yw perchennog Tŷ'r Ysgol wedi ymateb i lythyrau eu Syrfewr. Os yw'n addas, gall y Cyngor Cymuned geisio cysylltu'n uniongyrchol â'r perchnogion er mwyn ceisio cael ymateb. *AJ i drafod gyda Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir*. Adroddodd SP nad yw terfyn y maes parcio yn gyson ar y cynlluniau sydd yn y ffeil. Cynigiodd LJ fod SP a GW yn bwrw golwg tros archif ehangach y Cyngor cyn, os yr ydynt o'r farn nad

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347




oes angen angen ymgynghori ymhellach a'r Cyngor Cymuned, cysylltu gyda pherchnogion Tŷ'r Ysgol i drafod y ffordd ymlaen. Eiliodd SW a chytunodd pawb. *SP a GW i weithredu*. Mae dogfennau'r Ganolfan o dan ofal SP*. Penodwyd YE i holi ymhellach ynglyn a'r map gwifrau/pibellau gwasanaethau sydd ar y safle.*

**7.** **Sedd Wag -** Cynigiodd SW fod y Cyngor yn cyfethol Ynyr Ellis fel Aelod o'r Cyngor. Eiliodd SP a chytunodd pawb. Cwblhaodd YE ei ffurflen derbyn swydd.

**8.** **Y Clerc -** Adroddwyd na dderbynwyd ceisiadau am swydd y Clerc yn dilyn ymdrechion diweddar i'w llenwi. Cynigiodd SW fod y Cyngor yn ail-hysbysebu, yn cynnwys ar fewnrwyd y Cyngor Sir, gyda'r 31ain o Awst, 2018 yn ddyddiad cau. Eiliodd GW a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.*

***9.*** **Ceisiadau Cynllunio –** Dim.

***10.*** **Materion Lleol a gyflwynwyd o flaenllaw –** Nododd SW ei bod wedi clywed fod y Cyngor Sir yn monitro crac yn y Bont sy'n peri pryder i nifer o drigolion y pentref. *Y Cyng. AR i gysylltu gydag Adran Briffyrdd y Cyngor Sir os oes angen.*

***11.*** **Gohebiaeth**

***11.1*** **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – arddangos templad blynyddol**
Yn unol ag Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae'n rhaid i Gynghorau Chymuned a Thref gyhoeddi o fewn ardal ei hawdurdod y gydnabyddiaeth ariannol sydd wedi'i derbyn gan eu haelodau. Dylai'r wybodaeth hon gael ei hanfon at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn $30^{ain}$ Medi bob blwyddyn. *Y Clerc i weithredu.*

***11.2*** **Cod Ymrafer ar Faterion y Gweithlu – Partneriaiaethau Gweithlu'r Gwasnaeth Cyhoeddus -** Nododd y Clerc iddo dderbyn holiadur i'w gwblhau ar ran y Cyngor. Ni weithredwyd ar y cais gan iddo ei dderbyn ar ôl y diwrnod cau.

***11.3*** **Gofal Plant – llythyr gan Uned Plant Gwynedd a Môn -** Nodwyd fod Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn yn ceisio codi'r nifer o warchodwyr plant yn y Sir. Rhoddwyd posteri i'r perwyl yma i fyny yn y Ganolfan.

***11.4*** **Bwletin Newyddion Un Llais Cymru -** Cyflwynywyd Llais Cynghorau Tref a Chymuned Mawrth, 2018 (Un Llais Cymru) i'r Aelodau. Argraffwyd copi caled.

***12.*** **Cyllid**

***12.1*** **Adolygiad Chwarterol –** Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2018/19.

***12.2*** **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf -** £437.62 BHIB Limited (Yswiriant), £100.00 Pwyllgor Gwyl Ifan, £160.00 Eurwyn Griffith (Cyflog), £240.00 Roger Owen (torri gwair) a chredyd o £120.58 (TAW yn ôl). Balans yn y Banc: Cyfredol £5861.18cr. Cadw £2144.75cr.

***12.3*** **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -** E Griffith (Cyflog Clerc Gorffennaf a chostau gweinyddol sy'n ddyledus) £213.17, A Hughes-Jones, Dyson a'u Cwmni (TWE) £180.00, Y Ffynnon (hysbyseb) £6.00.

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 11eg o Fedi, 2018 am 7:30 y.h.**

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347